**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol Llanbedrog**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

**Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?**

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon.

**Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2**

- Mae disgyblion CA1 yn gallu creu cwestiynau i holi'r ficer lleol am ei ddyletswyddau.
- Mae disgyblion CA1 yn ymwybodol o rai straeon ac arferion crefyddau eraill, megis Iddewiaeth.
- Mae disgyblion CA1 yn gwybod ac yn gallu adrodd storiau am fywydau a gwaith sylfaenwyr ac arweinwyr crefyddol megis Iesu Grist a Dewi Sant.
- Gall disgyblion CA1 ysgrifennu gweddiau syml i ddiolch am eu teulu ac am bobl sy'n eu helpu.
- Mae disgyblion CA1 yn gwybod pwysigrwydd gofalu am fyd natur a'r byd o'u cwmpas.
- Mae disgyblion CA2 yn gwybod ystyr symbolau Cristnogol ac adnoddau penodol o fewn yr eglwys.
- Mae disgyblion CA2 yn deall pwysigrwydd rheolau crefyddol megis y Deg Gorchymyn ac yn gallu eu perthnasu i fywyd heddiw. Maent yn gallu creu rheolau newydd ar gyfer y Byd cyfoes a'u gwerthuso.
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd y gwahanol fannau sanctaidd o fewn Mosg yn dilyn eu hymweliad â Mosg Bangor ac yn gallu dynodi eu harwyddocad. Gallent nodi'r cyfraniadau y disgwylir i Fwslim ei wneud i'w gymuned, a chymharu rhain â'u cyfraniadau hwy yn eu cymuned leol.
- Gall nifer o ddisgyblion CA2 ddisgrifio'n fanwl bwrpas gwahanol arteffactau gan nodi eu pwysigrwydd ym mywyd y Mwslim.

**Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?**

- Datblygu sgiliau ymchwilio dysgwyr.
- Adnabod cyfleoedd i ddysgwyr ymdrin a chwestiynau sylfaenol
- Treialu strategaethau asesu ar gyfer dysgu.
- Addasu cynlluniau gwaith yr ysgol i gydfynd a'r cwricwlwm newydd.
- Datblygu gallu disgyblion i gynllunio, datblygu ac adfyfyrio ar eu dysgu.

## Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

- Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.
- Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

**Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 2**

- Mae naws arbennig i'n gwasanaethau, gyda'r plant yn gwneud cyfraniad effeithiol trwy ddramau byr, darlleniadau, gweddiau a chanu. Sicrheir amser i blant fyfyrio.
- Mae'r disgyblion yn adrodd gweddi cyn cinio a cyn mynd adref. Maent hefyd yn cael cyfleoedd i ysgrifennu gweddiau.

| |
|---|
| • Mae gan yr ysgol amcanion clir o ran datblygiad moesol y plant. Llwyddir i'w gwireddu yn yr ethos ofalgar sy'n cwmpasu bywyd a gwaith yr ysgol.<br>• Mae gofynion ABaCh wedi'u mapio'n drylwyr ar draws cynlluniau gwaith yr ysgol a chaiff y maes sylw da.<br>• Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd ym mhob dosbarth ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agwedd bositif tuag at rannu problemau a galluogi'r disgyblion i deimlo empathi tuag at ei gilydd. Maent hefyd yn hywyddo sgiliau trafod, gwrando ac ymateb i eraill.<br>• Mae'r Cyngor Ysgol yn sicrhau llais i'r plant yn natblygiad yr ysgol fel cymuned. Eleni rhoddwyd cryn sylw i'r defnydd a wneir o iard yr adran iau yn ystod amser egwyl a marciwyd y ddwy iard. Gwnaethpwyd gwelliannau sylweddol i doiledau'r adran iau yn ystod gwyliau'r haf yn unol a dymuniadau'r Cyngor.<br>• Cwblhawyd ail gam y cynllun Ysgol Iach a rhoddir sylw da i fwyta'n iach a hybu ffitrwydd disgyblion drwy gymryd rhan yn flynyddol yn yr UK Fitter Schools Challenge.<br>• Mae bod yn rhan o'r Cynllun Ysgol Iach wedi galluogi'r ysgol i gynnig profiadau rhagorol i'r disgyblion e.e. Sioe Bygiau Baco a 'Paid Cyffwrdd, Dwed!'<br>• Mae'r ysgol yn cyfrannu'n hael at elusennau, yn lleol ac yn genedlaethol. Eleni casglwyd £180.50 tuag at Gronfa'r Ambiwlans Awyr, £125.56 tuag at Fudiad Ymchwil y Galon ac £81.70 tuag at Apêl Plant Mewn Angen.<br>• Caiff dinasyddiaeth fyd eang sylw da ar draws y cwricwlwm. Ceir ymateb brwydfrydig pob blwyddyn i apêl Operation Christmas Child.<br>• Trwy gyfrwng amrywiaeth o brofiadau dysgu datblygir agwedd gadarnhaol at faterion sy'n ymwneud â thlodi, tegwch a goddefgarwch. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| • Sicrhau mwy o gyfleoedd i blant gynllunio a pharatoi gwasanaethau eu hunain.<br>• Sicrhau naws grefyddol yn y gwasanaethau drwy oleuo cannwyll.<br>• Ail-edrych ar y cynllun gwaith ABCh. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad:** | **28-9-08** |
| **Arwyddwyd:** Emyr W. Jones | **(Pennaeth** |